CYHOEDDIAD

Cyfarfod Is-grŵp Cadernid Morol Grŵp Cynghori a Gweithredu Cymru ar Faterion Morol (WMAAG): 26 Mawrth 2020

Cofnodion cyfarfod Is-grŵp Cadernid Morol Grŵp Cynghori a Gweithredu Cymru ar Faterion Morol (WMAAG) a gynhaliwyd ar 26 Mawrth 2020 am 2pm.

Cyhoeddwyd gyntaf: 26 Mawrth 2020

Diweddarwyd ddiwethaf: 26 Mawrth 2020

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i **https://llyw.cymru/cyfarfod-grwp-cadernid-morol-grwp-cynghori-gweithredu-cymru-ar-faterion-morol-wmaag-26-mawrth-2020** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

Cynnwys

Yn bresennol

Ymddiheuriadau

Croeso a chyflwyniadau

Rheoli Rhwydwaith MPA – Adborth ar gyflwyniadau

Unrhyw fater arall

Yn bresennol

Mike Dowell (Llywodraeth Cymru – cyd-gadeirydd)
Chris Jenkins (Llywodraeth Cymru)
James Millington (Llywodraeth Cymru)
Caitlin Jenkins (Llywodraeth Cymru)
Maggie Hatton Ellis (CNC)
Dr Andrew Lucas (JNCC)
Gill Bell (Y Gymdeithas Cadwraeth Forol)
Tabea Wilkes (RSPB Cymru)
Emma McKinley (Prifysgol Caerdydd)
Phil Horton (Y Gymdeithas Hwylio Frenhinol)
Rachel Sharp (Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Cymru)
Clare Trotman (Y Gymdeithas Cadwraeth Forol)
Katie Havard-Smith (Prifysgol Caerdydd)
Peter Davies (WMAAG)

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i **https://llyw.cymru/cyfarfod-grwp-cadernid-morol-grwp-cynghori-gweithredu-cymru-ar-faterion-morol-wmaag-26-mawrth-2020** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

Ymddiheuriadau

Nick O’Sullivan (WMFAG)
Phil Hollington (Ynys Mon)
Mark Simmonds (British Ports Association)
Mary Lewis (NRW)

Croeso a chyflwyniadau

Bu Mike Dowell y Cadeirydd yn croesawu’r aelodau i ail gyfarfod yr is-grŵp. Diolchodd i'r aelodau am eu cefnogaeth barhaus i'r prosiectau mewn cyfnod mor unigryw o heriol. Dywedodd fod Llywodraeth Cymru yn parhau i weithredu fel arfer am y tro, ond mae argyfwng Covid-19 yn debygol o effeithio ar gyllidebau bob adran ac rydym yn disgwyl blwyddyn heriol o'n blaenau. Nododd fod y sefyllfa'n ddeinamig iawn, ac yn newid bob dydd, ac felly mae bosibl y bydd ymrwymiadau cyllidebol yn newid.

Camau gweithredu

- Llywodraeth Cymru i gyhoeddi’r nodyn ar gyfer y cyfarfod ar y wefan.

Rheoli Rhwydwaith MPA – Adborth ar gyflwyniadau

Rhoddwyd trosolwg o'r saith cyflwyniad a wnaed i'w cynnwys yng Nghynllun Rheoli Rhwydwaith mpA nesaf, ynghyd â'r rhesymau pam y cafodd pob un ei dderbyn neu ei wrthod i'w gynnwys.

Nodwyd bod pump o'r saith cyflwyniad wedi'u derbyn a gwrthodwyd dau.

Roedd y cynllun blaenorol yn cynnwys 25 o gamau gweithredu, ac mae 21 ohonynt yn cael eu cario drosodd i'r cynllun nesaf. O'r 5 cynnig a dderbyniwyd, mae 2 yn cael eu huno â'r camau gweithredu presennol ac mae 3 cam

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.
Ewch i **https://llyw.cymru/cyfarfod-grwp-cadernid-morol-grwp-cynghori-gweithredu-cymru-ar-faterion-morol-wmaag-26-mawrth-2020** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

gweithredu newydd wedi'u cynnwys.

Bydd y cynllun newydd yn cael ei gyhoeddi erbyn diwedd Gorffennaf 2020, er gwaethaf y tarfu oherwydd Covid-19.

Cynnig 1:

Data Seasearch data, datblygu dadansoddi tueddiadau ar gyfer Cymru. Cafodd y cynnig ei wrthod.

Gofynnodd Clare Trotman am wybodaeth gan Lywodraeth Cymru ar sut i gydweithio i edrych ar opsiynau eraill ar gyfer cyllido'r prosiect y tu allan i Gynllun Rheoli Rhwydwaith MPA.

Cynnig 2:

Prosiect adfer wystrys brodorol. Derbyniwyd y cynnig.

Nodwyd bod y prosiect yn cael ei ariannu gan yr EMFF a'i gynnal gan CNC, ac un o allbynnau allweddol y prosiect yw sefydlu model adfer y gellir ei efelychu mewn mannau eraill yng Nghymru neu'r DU.

Cynnig 3:

Deall palu am abwyd yng Nghymru. Derbyniwyd y cynnig.

Nodwyd mai'r cynnig oedd datblygu dadansoddiad ledled Cymru o ddifrod posibl i safleoedd ac opsiynau rheoli ar gyfer safle Gann sydd eisoes wedi'i ddifrodi.

Mae cyflwyno cyfraith yn cael ei ystyried i ddiogelu'r Gann, ac ymgynghorir â phalwyr abwyd yn ystod y broses hon.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i **https://llyw.cymru/cyfarfod-grwp-cadernid-morol-grwp-cynghori-gweithredu-cymru-ar-faterion-morol-wmaag-26-mawrth-2020** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

Cynnig 4:

Asesu risg amgylcheddau atodiad 1 y newid yn yr hinsawdd. Derbyniwyd y cynnig.

Astudiaeth bwrdd gwaith fydd hwn gyda'r bwriad o sefydlu rhestr flaenoriaeth o'r amgylcheddau sydd mewn perygl fwyaf sydd angen canolbwyntio arnynt.

Cynnig 5:

Gwell Cyswllt wrth Reoli Ardaloedd Morol Gwarchodedig. Gwrthodwyd y cynnig.

Nodwyd bod y panel wedi trafod yn helaeth yr arferion gorau a'r fforwm gorau i weithredu'r cynnig.

Gwrthodwyd y cynnig oherwydd diffyg eglurder ynghylch yr allbynnau diriaethol a sut i integreiddio'r allbynnau yn y cynllun rheoli.

Cynnig 6:

Gweithredu data monitro llongau. Derbyniwyd y cynnig.

Nodwyd y byddai'r cynnig yn galluogi monitro rhywogaethau sy'n agored i niwed a byddai'n cael ei ariannu gan yr EMFF.

Cynnig 7:

Lleihau aflonyddu ar famaliaid ac adar môr: Derbyniwyd y cynnig.

Nodwyd gyda gofid na ellid darparu adborth ysgrifenedig ar y cynigion a wrthodwyd ar hyn o bryd.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i **https://llyw.cymru/cyfarfod-grwp-cadernid-morol-grwp-cynghori-gweithredu-cymru-ar-faterion-morol-wmaag-26-mawrth-2020** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

Camau gweithredu

- Llywodraeth Cymru i ddiweddaru'r grŵp os caiff y gyllideb ei chyfeirio at feysydd eraill oherwydd Covid-19.
- Llywodraeth Cymru i ymgynghori â rhanddeiliaid pam na chafodd rhagor o gynigion eu cyflwyno, ac a oes unrhyw beth yn eu rhwystro.
- Llywodraeth Cymru i gydweithio gyda MCS i edrych ar sianeli cyllido eraill.

Unrhyw fater arall

Gofynnodd Chris Jenkins i'r grŵp roi sylwadau ar fformat adroddiad rheoli rhwydwaith blynyddol yr MPA i'w wneud yn fwy defnyddiol.

Nodwyd mewn cyfarfodydd blaenorol yr awgrymwyd bod angen adnewyddu'r adroddiad.

Awgrymodd Gill Bell grynodeb sgleiniog 2 dudalen a byddai mwy o ffeithluniau yn dod â'r cynnwys yn fyw i gynulleidfa ehangach.

Awgrymodd Peter Davies y byddai fersiwn i'w defnyddio mewn ysgolion yn ddefnyddiol. Nodwyd y gellid cynhyrchu hyn o dan y prosiect eco-ysgolion.

Camau gweithredu

- Llywodraeth Cymru i holi'r gymuned ehangach o randdeiliaid am adborth ar yr adroddiad.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i **https://llyw.cymru/cyfarfod-grwp-cadernid-morol-grwp-cynghori-gweithredu-cymru-ar-faterion-morol-wmaag-26-mawrth-2020** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

Ynghylch y ddogfen hon

Mae'r ddogfen hon yn gopi o'r dudalen we **Cyfarfod Is-grŵp Cadernid Morol Grŵp Cynghori a Gweithredu Cymru ar Faterion Morol (WMAAG): 26 Mawrth 2020** a lawrlwythwyd.

Ewch i **https://llyw.cymru/cyfarfod-grwp-cadernid-morol-grwp-cynghori-gweithredu-cymru-ar-faterion-morol-wmaag-26-mawrth-2020** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch; darllenwch ein **datganiad hygyrchedd** i gael rhagor o wybodaeth.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i **https://llyw.cymru/cyfarfod-grwp-cadernid-morol-grwp-cynghori-gweithredu-cymru-ar-faterion-morol-wmaag-26-mawrth-2020** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.